Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Maesincla

Maesincla
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1DF

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Maesincla

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Maesincla |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 266 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 185 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 37 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 42.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 20.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 71.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 18/02/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol at greu cymuned gynhwysol, ofalgar a hapus. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae staff a phartneriaid ehangach yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu gweledigaeth yr ysgol.

Mae staff yn cynllunio cwricwlwm eang a phwrpasol sy'n ymateb yn dda i anghenion y disgyblion. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n ennyn a chynnal diddordebau disgyblion ac yn datblygu eu medrau mewn ystod eang o brofiadau dysgu. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg naturiol a hyderus ac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu, mathemategol a digidol yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen y disgyblion yn effeithiol; er hyn, nid yw'r ysgol yn meithrin diwylliant digon cadarn o ddarllen er pleser.

Mae staff yn hyrwyddo lles ac ymddygiad cadarnhaol yn fedrus, ac mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol. Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r ddarpariaeth faeth ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol, cymdeithasol ac addysgol cymhleth, sy'n cefnogi eu lles a'u hymgysylltiad â'u dysgu yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau cryf â rhieni a'r gymuned sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn cefnogi lles a dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio ystod fuddiol o weithdrefnau hunanwerthuso i lywio gwelliant ac yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cyfrannu'n fuddiol at gryfhau ansawdd yr addysgu. Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth glir i hyrwyddo presenoldeb. Er hyn, mae presenoldeb y lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy isel.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Gwella presenoldeb disgyblion

A2 Cryfhau’r diwylliant o ddarllen er pleser

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol, ofalgar a hapus lle mae lles a chynnydd disgyblion wrth wraidd ei gwaith. Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol ac ysbrydoledig sy’n darparu gweledigaeth glir ar gyfer rhoi gofal ac addysg o’r ansawdd gorau posibl i bob disgybl. Caiff y weledigaeth hon ei chefnogi’n frwd gan staff ymroddgar a phartneriaid ehangach sy’n cydweithio’n effeithiol i feithrin diwylliant o barch ac ymddiriedaeth sy’n treiddio drwy holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ymgysylltu’n gadarnhaol â’u dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm cynhwysfawr a phwrpasol sy’n diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu gweithgareddau dysgu sy’n cwmpasu’r meysydd dysgu yn effeithiol, ac yn cynnwys syniadau’r disgyblion wrth gynllunio themâu sy’n ennyn a chynnal eu diddordebau yn fedrus. Mae hyn yn cryfhau ymdeimlad y disgyblion o berchnogaeth dros eu dysgu. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy’n datblygu medrau disgyblion mewn ystod eang o brofiadau dysgu, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr iddynt feithrin a datblygu eu creadigrwydd. Mae hyn yn cefnogi llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai o aelwydydd incwm isel, i wneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

### Ciplun: Darparu amgylchedd dysgu maethgar i gefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol, cymdeithasol ac addysgiadol cymhleth

Mae staff wedi datblygu darpariaeth faeth hynod effeithiol sy’n helpu disgyblion ag anghenion emosiynol, cymdeithasol ac addysgol cymhleth i gael y cymorth a’r gofal sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Mae dosbarthiadau maeth pwrpasol yn darparu amgylchedd tawel, diogel a chefnogol gyda chyfleusterau synhwyraidd ac adnoddau arbenigol sy’n ymateb yn werthfawr i anghenion unigol y disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn buddsoddi’n fwriadus mewn dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i’r staff sy’n datblygu eu harbenigedd i ddeall ac ymateb yn effeithiol i ystod eang o anghenion dwys a chymhleth disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth gydlynol hon yn galluogi staff i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol â’r disgyblion, gan greu amgylchedd lle maent yn teimlo’n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn barod i ddysgu. Mae’r berthynas gref hon rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu’n sylweddol at gryfhau lles emosiynol, hyder, gwydnwch a medrau cyfathrebu’r disgyblion, ynghyd â’u hymgysylltiad â dysgu.

Mae grwpiau llais y disgybl wedi’u sefydlu’n briodol ac yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu at ddatblygiad yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau’r pwyllgor eco wedi gweithio’n ddiwyd i wella’r ddarpariaeth ar gyfer garddio ac ailgylchu, gan gryfhau eu hymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at yr ysgol a’r amgylchedd.

Lle mae’r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr cynyddol annibynnol. Maent yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion drafod a rhannu syniadau mewn parau ac mewn grwpiau bach, sy’n cyfrannu’n fuddiol at ddatblygu eu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a chydweithio. Mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu deniadol ac ysgogol sy’n meithrin agweddau cadarnhaol llawer o ddisgyblion tuag at eu dysgu. Mae’r perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion, ynghyd â dealltwriaeth gynhwysfawr y staff o anghenion unigol y disgyblion, yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau ac yn dangos parch at gyfraniadau eraill.

Mae athrawon yn addasu’r ddarpariaeth yn fedrus i gefnogi disgyblion i fod yn barod i ddysgu. Er enghraifft, mae sesiynau 'Dydd Llun Lles' yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio, datblygu medrau bywyd a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n hyrwyddo iechyd, lles ac ymgysylltiad â byd natur. Mae’r profiadau hyn yn cyfrannu’n effeithiol at gryfhau hunanhyder disgyblion a’u parodrwydd i ymgymryd â’u dysgu drwy gydol yr wythnos.

Mae athrawon yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn fwriadus. Trwy sesiynau addoli a myfyrio rheolaidd, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried gwerthoedd pwysig, gan gynnwys parch, caredigrwydd ac amrywiaeth. Mae’r rhan fwyaf yn dangos empathi tuag at eraill ac yn ymddwyn yn gwrtais ac yn barchus mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae staff yn hyrwyddo’r Gymraeg yn hynod effeithiol. Maent yn fodelau iaith cadarn ac yn annog disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg wrth ddysgu a chwarae yn fwriadus. Mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn ac maent yn defnyddio’r Gymraeg yn naturiol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth briodol i gryfhau medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig eu medrau darllen. Mae athrawon yn darparu sesiynau darllen dyddiol sy’n cefnogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu’n ddarllenwyr hyderus. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn darllen yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg gan ddefnyddio tôn a mynegiant priodol. Fodd bynnag, nid yw’r diwylliant o ddarllen er pleser wedi’i wreiddio’n ddigon cadarn ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi disgyblion i ymgolli a mwynhau’r profiad.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau ysgrifennu mewn cyd-destunau ystyrlon. Yn yr arfer orau, maent yn modelu iaith a chyflwyno geirfa a phatrymau brawddeg yn fedrus cyn i ddisgyblion ddechrau cofnodi ac ysgrifennu. Ynghyd ag adborth defnyddiol staff, mae hyn yn cefnogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn gadarn ac i ysgrifennu’n estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith.

Mae medrau mathemategol, rhifedd a digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog iddynt gymhwyso'r medrau mewn cyd-destunau amrywiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teclynnau amrywiol i gynhyrchu animeiddiadau yn greadigol, tra bod y disgyblion hŷn yn ysgrifennu codau i reoli dyfeisiau electronig yn hyderus.

Mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn defnyddio ystod effeithiol o weithgareddau hunanwerthuso i arfarnu effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd y disgyblion. Trwy ymuno â staff mewn arsylwadau dysgu, craffu ar waith a thrafodaethau proffesiynol, maent yn gwerthuso effaith yr addysgu ar ddatblygiad medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn fuddiol. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth arweinwyr a staff o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn rhoi sylw priodol i wella presenoldeb disgyblion drwy gydweithio'n agos â theuluoedd a thrwy hyrwyddo presenoldeb cadarn ymhlith y disgyblion. Fodd bynnag, mae presenoldeb lleiafrif y disgyblion yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn briodol, gan weithredu fel cyswllt effeithiol rhwng yr ysgol a'r gymuned.

### Ciplun: Cydweithio effeithiol â'r gymuned i gyfoethogi'r ddarpariaeth a chefnogi teuluoedd

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau cryf â rhieni ac aelodau'r gymuned sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac yn cefnogi lles teuluoedd yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau cymunedol poblogaidd sy'n annog teuluoedd i ymgysylltu'n rheolaidd â bywyd yr ysgol. Mae digwyddiadau fel nosweithiau bingo a chyri yn dod â theuluoedd, staff ac aelodau o'r gymuned ynghyd mewn awyrgylch croesawgar sy'n cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'i chymuned.

Mae'r ysgol hefyd yn addasu digwyddiadau fel nosweithiau rhieni yn greadigol er mwyn annog mwy o deuluoedd i fynychu. Mewn awyrgylch anffurfiol, mae rhieni'n cael cyfleoedd i weld gwaith eu plant, ymweld â'r ysgol a chael arweiniad ymarferol ar sut i gefnogi dysgu eu plant, gan gynnwys sut i gefnogi eu medrau darllen gartref.

Yn ogystal, mae arweinwyr yn ymateb yn sensitif i anghenion y gymuned drwy sefydlu 'Siop Siafins', sy'n darparu bwyd a nwyddau hanfodol i deuluoedd. Mae'r ddarpariaeth hon, ynghyd â'r gweithgareddau cymunedol, yn meithrin ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth a pherthyn rhwng yr ysgol, ei theuluoedd a'r gymuned ehangach, gan gryfhau ymgysylltiad y rhieni ag addysg eu plant.

Mae'r pennaeth yn dyrannu cyfrifoldebau'n synhwyrol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu eu medrau arwain drwy gyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm ac arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae targedau rheoli perfformiad wedi’u cysylltu’n fwriadus â blaenoriaethau gwella’r ysgol ac anghenion datblygiad proffesiynol unigol staff. Mae hyn yn sail i arlwy bwrpasol o ddysgu proffesiynol sy’n datblygu medrau ac arbenigedd staff yn llwyddiannus. Yn ogystal â rhannu arferion effeithiol o fewn yr ysgol, mae staff yn elwa o gydweithio â staff o ysgolion cyfagos i fireinio eu harferion addysgu ymhellach. Mae’r diwylliant cryf hwn o gydweithio a dysgu proffesiynol yn cyfrannu’n gadarnhaol at ansawdd y ddarpariaeth ac at fwynhad disgyblion yn eu profiadau dysgu a’r cynnydd cyson yn eu medrau.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
www.estyn.llyw.cymru

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2026